OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 925

# Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu ) (Cymru) 2011

## RHAN 4

Gweithredu ar ôl y dyddiad dechrau

### Hysbysiad i bersonau sydd â diddordeb

**9.**—(1) Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, o fewn y cyfnod o 2 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, roi hysbysiad i'r perwyl bod apêl wedi ei gwneud—

(a) i unrhyw berson (ac eithrio'r apelydd) sydd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â'r cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef; a

(b) i unrhyw berson arall sydd, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu, yn debygol o fod â diddordeb.

(2) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan—

(a) y dyddiad dechrau;

(b) enw a lleoliad y safle y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;

(c) enw'r apelydd;

(ch) y bydd yr apêl yn cael ei phenderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad (yn ôl fel y digwydd);

(d) y caiff derbynnydd yr hysbysiad, o fewn y cyfnod o 4 wythnos sy'n cychwyn gyda dyddiad yr hysbysiad, gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig;

(dd) y cyfeiriad y mae'n rhaid anfon sylwadau o'r fath iddo;

(e) y bydd unrhyw sylwadau a ddaw i law yn cael eu hanfon at yr apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu; ac

(f) os bydd y derbynnydd yn gwneud sylwadau, y bydd y person penodedig yn ei hysbysu o ddyddiad unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad a gynhelir.

(3) Ynghyd â'r hysbysiad rhaid darparu copi o'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

(4) Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, o fewn y cyfnod o 2 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, anfon y canlynol at y person penodedig ac at yr apelydd—

(a) rhestr o'r personau y rhoddwyd yr hysbysiad o dan baragraff (1) iddynt, ac o'r dyddiadau y gwnaed hynny; a

(b) copïau o'r holl sylwadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a).

### Sylwadau ac esboniadau

**10.**—(1) Pan fo apêl i gael ei phenderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig—

(a) rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, o fewn y cyfnod o 6 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig unrhyw sylwadau y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n dymuno'u gwneud ynglŷn â'r apêl, ynghyd ag unrhyw ddogfennau y mae'n bwriadu dibynnu arnynt;

(b) os yw'r apelydd yn dymuno gwneud sylwadau ynglŷn â'r apêl, yn ychwanegol at y datganiad o seiliau'r apêl y cyfeirir ato yn rheoliad 7(1)(b) neu'r dogfennau a gyflwynwyd gydag ef, y cyfeirir atynt yn rheoliad 7(2), rhaid i'r apelydd anfon y sylwadau hynny at y person penodedig o fewn y cyfnod o 6 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau.

(2) Pan fo apêl i gael ei phenderfynu drwy gyfrwng gwrandawiad neu ymchwiliad, rhaid i'r apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu, ill dau, o fewn y cyfnod o 6 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig ddatganiad sy'n cynnwys manylion llawn o'r achos y maent yn bwriadu ei roi gerbron yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad, a rhestr o unrhyw ddogfennau y bwriadant gyfeirio atynt neu'u rhoi yn dystiolaeth.

(3) Ar ddiwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, rhaid i'r person penodedig—

(a) os yw'r apêl i'w phenderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig—

(i) anfon copi o sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu at yr apelydd; a

(ii) anfon copi o unrhyw sylwadau a wnaed gan yr apelydd o dan baragraff (1)(b) at yr Awdurdod Trwyddedu;

(b) os yw'r apêl i'w phenderfynu drwy gyfrwng gwrandawiad neu ymchwiliad, anfon copi o sylwadau a rhestr dogfennau'r Awdurdod Trwyddedu at yr apelydd a chopi o ddatganiad a rhestr dogfennau'r apelydd at yr Awdurdod Trwyddedu;

(c) ym mhob achos, anfon, ar yr un pryd, copïau o unrhyw sylwadau eraill a ddaw i law'r person penodedig mewn perthynas â'r apêl at yr apelydd ac at yr Awdurdod Trwyddedu.

(4) Caiff yr apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu, o fewn y cyfnod o 9 wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig esboniadau ar y sylwadau hynny neu'r datganiad hwnnw.

(5) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfnod hwnnw o 9 wythnos, anfon copi o esboniadau'r Awdurdod Trwyddedu at yr apelydd, ac ar yr un pryd, anfon copi o esboniadau'r apelydd at yr Awdurdod Trwyddedu.